# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

**Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 2 o Chwefror 2023 yn brydlon am 7:30 y.h. yng Nghapel Pencaenewydd, a drwy Zoom (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).**

1. **Yn bresennol**: Y Cynghorwyr Angela Williams (Cadeirydd), Margaret Griffith, Dylan Thomas, Aled Davies, Delyth Parry, Tegid Jones, Darren Morley, Anwen Jones a Gareth O.Davies a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau**. Cynghorwyr Thomas Prys Jones, Miriam Williams, Sian Angharad Parry, Aled Lloyd Evans, Rhys Tudur, a Sion Aled Jones.

2. **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion** cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 12fed o Ionawr 2023.

3. **Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS** Ionawr 2023 (roedd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei gweld o flaen y cyfarfod a'i llofnodi).

4. **Datgan buddiant personol** - (y Clerc wedi anfon copi electroneg at bawb).

**Cynghorydd Tegid Jones** – datgan buddiant personol rhif:-

27(i) - Cais ariannol Menter y Plu oherwydd ei fod yn gyfarwyddwr y Fenter.

27(c) – Cais ariannol Mynwent Newydd Llanystumdwy – oherwydd ei fod yn aelod o bwyllgor y Fynwent.

**Cynghorydd Anwen Jones** – datgan buddiant personol rhif:-

27(c) – Cais ariannol Mynwent Newydd Llanystumdwy – oherwydd ei bod yn aelod o bwyllgor y Fynwent.

**Cynghorydd Darren Morley** – datgan buddiant personol rhif:-

27(e) – Cais ariannol Clwb Peldroedd Llanystumdwy – oherwydd ei fod yn rhan o bwyllgor y Clwb Peldroed.

27(l) – Cais ariannol Clwb Snwcer Chwilog – oherwydd ei fod yn rhan o bwyllgor y Clwb Snwcer.

27(c) – Cais ariannol Mynwent Newydd Llanystumdwy – oherwydd ei bod yn aelod o bwyllgor y fynwent.

27(f) – Cais ariannol Neuadd Llanystumdwy – oherwydd ei fod yn aelod o bwyllgor y neuadd.

**Cynghorydd Aled Davies** - datgan buddiant personol rhif:-

27(d) Cais ariannol Mynwent Newydd Chwilog – oherwydd ei fod yn aelod o bwyllgor y fynwent.

**Cynghorydd Angela Williams**- datgan buddiant personol rhif:-

27(dd) - Cais ariannol Cymdeithas Adloniant Pencaenewydd oherwydd ei bod yn gadeirydd y gymdeithas.

27(g) – Cais ariannol Cylch Meithrin Llangybi – oherwydd ei bod yn gysylltiedig â'r ysgol.

27(h) - Cais ariannol Ysgol Llangybi – oherwydd ei bod yn gysylltiedig â'r ysgol.

**Cynghorydd Gareth Davies** - datgan buddiant personol rhif:-

27(c) - Cais ariannol Mynwent Newydd Llanystumdwy oherwydd ei fod ar bwyllgor y fynwent.

**Cynghorydd Delyth Parry** – datgan buddiant personol rhif:-

27(dd) - Cais ariannol Cymdeithas Adloniant Pencaenewydd oherwydd ei bod ar y pwyllgor.

5. **Cynghorydd Twm Prys Jones** – wedi anfon llythyr at y Clerc yn datgan ei fod yn dymuno rhoi'r gorau i fod yn Gynghorydd Cymuned Ward Llangybi. Bydd yn terfynu ei wasanaeth yn dilyn cyfarfod mis Mawrth 2023. **Derbyn** gan nodi y bydd colled ar ei ol.

**Materion gan Cyngor Gwynedd**

6. **Rhaglen Waith Trafnidiaeth a Priffyrdd** mis Chwefror 2023

| Lleoliad Gwaith | Disgrifiad o'r Gwaith | Gwasanaeth |
|---|---|---|
| Llanystumdwy | Tîm Tacluso – Ardal Ni<br>30/01/23 – 03/02/23 | Priffyrdd |

7. **Cyngor Gwynedd** – ceisiadau cynllunio yn y gymuned –

a) **Cais rhif C22/1176/41/LL - Ysgol Gynradd Chwilog, Chwilog**, - estyniad blaen ac addasiadau i'r ysgol. **Cefnogi.**

b) **Cais rhif C23/0052/41/DT - Bryn Ceiri, Bryn March, Ynys, Cricieth**, - codi estyniad unllawr i'r ochr i gymryd lle lolfa wydr sydd eisioes wedi ei dynnu lawr, a dymchwel garej bresennol. **Cefnogi.**

8. **Y Lôn Goed – cais marchogaeth** ar ddarn o'r Lon Goed, gan y Gymdeithas Ceffylau Prydeinig.

Mae'r Cynghorydd Rhys Tudur wedi anfon y sylwadau isod at Mr Euryn Williams, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy ar ol trafod hefo'r Cynghorydd Margaret Griffith, a'r cyn Gynghorydd Trefor Jones yn gwrthwynebu'r cais:

- "Nid yw mapiau yn dystiolaeth ddibynadwy i weld os oes hawl i fynd ar y Lôn Goed â cheffylau. Gwyddom fod y lôn yn lletach na llwybr cyhoeddus ond nid yw hyn yn cadarnhau bod hawl o farchogaeth drosti.
- Mae holl diroedd o gylch y Lôn Goed yn breifat. Nid oes tystiolaeth o weithredoedd wedi eu rhoi gerbron sy'n dangos bod hawl i farchogaeth dros yr un o'r darnau tiroedd rhain. Mae dyfyniad o weithred ar un daflen gan y ceisydd ond mae hwnnw yn cyfeirio yn gyffredinol tuag at hawl tramwy "any such rights of way" ac felly nid yw'n cadarnhau bod hawl tramwy i farchogaeth wedi ei warantu.
- Does ychwaith yr un datganiad gan unigolion sy'n tystiolaethu defnydd o'r lôn ar gyfer marchogaeth wedi ei ddarparu.
- Deallaf nad yw'r lôn wedi ei farchogaeth ers blynyddoedd ac nid oes tystiolaeth i brofi i'r gwrthwyneb. Credaf bod profi defnydd yn hanfodol.
- Deallaf hefyd bod Cyngor Gwynedd flynyddoedd yn ôl wedi bod yn monitro defnydd o'r lôn er mwyn atal marchogaeth ar ei hyd. Dadleuir felly nad yw defnydd marchogaeth o'r Lôn Goed wedi ei brofi.
- Mae'r Lôn Goed yn croesi lôn breifat sy'n arwain at Rhosgyll. Nid oes gan yr ymgeisydd brawf bod ganddynt hawl i dramwyo dros y darn hwn.
- Ceir 'cattlegrid' yn is lawr y Lôn Goed, er nad yw ar gyfer darn sy'n ymwneud â'r cais, mae'n profi bod y Lôn Goed efo rhwystrau ffisegol rhag marchogaeth.
- O gwmpas fferm Gaerwen, ceir giatiau pren sy'n rwystrau ar gyfer marchogaeth. Maent wedi bod yno ers cyfnod hir".

Derbyniwyd ymateb gan Mr Euryn Williams, yn cadarnhau bydd Cyngor Gwynedd rwan yn ystyried yr holl sylwadau a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad. Yna, mi fydd rhaid i'r Cyngor benderfynu os am wneud Gorchymyn i uwchraddio'r darn perthnasol o'r Lôn Goed -

*sydd ar hyn o bryd yn llwybr troed* - i gilffordd gyfyngedig. Os bydd y Cyngor yn penderfynu gwneud Gorchymyn, mae gofyn i'r Cyngor ymgynghori eto gyda'r perchnogion tir a'r grwpiau/unigolion statudol. Mae hyn yn cynnwys yr Aelod Lleol a hefyd y Cyngor Cymuned (ymysg eraill). Cadarnhaoedd na allai ddweud ar hyn o bryd os na pha bryd bydd hyn yn digwydd gan fod y cais o dan ystyriaeth. **Diolchwyd i'r tri am ei cyfraniad.**

**9. Un Blaned**
Derbyniwyd ymateb gan Ms Gwawr Hughes, Arweinydd Tîm Rheolaeth Datblygu, Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, yn cadarnhau **nad oes cais am ddatblygiad Un Blaned wedi ei gyflwyno nac ei ganiatáu yn Ardal Cyngor Cymuned Llanystymdwy nac yng Ngwynedd. Derbyn.**

12. **Diffyg meddygon** ar gael yn lleol allan o oriau. Mae achosion lle mae cleifion o'r ardal wedi gorfod teithio i Fangor ar nos Wener a dydd Sadwrn i weld meddyg teulu, ac anhawster wedyn i gael prescripsiwns yn lleol ar y Sul (pan oedd y claf wedi ei gadw i mewn dros nos ac yn cael tacsi'r gwasanaeth iechyd i ddod adra ar y Sul ) heb fynd yn ol i archfarchnad Morrisons, Bangor gan na ellir eu cael yn Ysbyty Gwynedd mwyach. **Gofynwyd i'r Clerc gysylltu hefo Mabon ap Gwynfor**

**Materion yn y gymuned**.
13. **Llanystumdwy**
**Dwr yn croni** wrth y bont i lawr heibio Maen y Wern. **Y Clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd.**

14. **Rhoslan/Ynys**

15. **Chwilog**
**Cais i gael arwyddion brown a gwyn yn nodi'r Lôn Goed yn Afonwen a Chwilog cyn yr Eisteddfod Genedlaethol**. Y Clerc i holi.

16. **Pencaenewydd/Sardis**
17. **Llangybi**

**Materion Ariannol**

18.**Adroddiad Ariannol** gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Gwnaeth y Clerc anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 01.02.2023. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud. (Gwnaeth y Clerc drefnu i ddangos y biliau i gyd i'r Cadeirydd i'w llofnodi a'i awdurdodi o flaen y cyfarfod cyn ei talu). Derbyniwyd £4719.95 o arian gan Lightsource ar 10.01.2023 sydd £529.57 yn fwy eleni na llynedd.

19. **Cais am ad-daliad arian cynnal a chadw llwybrau o fewn y gymuned** - Clerc wedi anfon ebost at Mr Dewi Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Dwyfor i wneud cais.

20. **Archwilio allannol** – dal heb dderbyn ymateb ganddynt - Clerc wedi holi eto ond heb dderbyn ymateb. Gofynwyd i'r Clerc dynnu sylw Mabon ap Gwynfor at y mater.

21. **Cronfa Covid Tŷ Doctor Nefyn** – Y Clerc wedi derbyn ateb, a derbyniwyd taliad o £1,017.83 yng nghyfrif y Cyngor Cymuned.

22. **Croesawu'r Eisteddfod i bentrefi/ardaloedd o fewn ffiniau Cyngor Cymuned Llanystumdwy** Cytunwyd y byddai'r Chyngorydd Aled Davies yn archebu gwerth tua £200.00 o faneri a 'bynting' (defnydd nid plastig), fel y byddai wedyn yn bosib ei dosbarthu i'w gosod mewn lleoedd amlwg o fewn y gymuned.

23. **Baner 'Arbedwch Gwasanaeth yr Ambiwlans Awyr'.** Cyngor Tref Pwllheli wedi trefnu cynhyrchu banner am £30.00 + TAW, os oedd diddordeb. **Penderfynwyd gwrthod.**

24. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw/Rheswm** | Rheswm | Pris<br><br>£ | TAW | Cyfanswm Taliad<br>£ | Taliad BACS<br><br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| SLCC (MEM242921-1) | Tâl aelodaeth (01.03.23-01.03.24) | **112.00** | | **112.00** | **112.00** |
| Wifi Neuadd Llanystumdwy | Mae'r taliad rhwng 01.03.22 – 28.02.2023 (£23.94 x 2 mis £28.10 x 1 mis, £24.62 x 1 mis £26.34 x 8 mis=£311.62) | **311.32** | | **311.32** | **311.32** |
| Un Llais Cymru (6776) | Hyfforddiant | **140.00** | | **140.00** | **140.00** |

25. Cyflog mis Ionawr 2023 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS:-<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Ionawr 2023 35 awr y mis x £12.50 = £437.50 | 437.50<br>Llai treth £87.60=<br>**£349.90** | **349.90** | **349.90** |
| Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Ionawr 2023 | £438.00 x 20% =<br>**£87.60** | **87.60** | **87.60** |
| Costau Clerc mis Ionawr 2023 | **£16.00** | **16.00** | **16.00** |

26. **CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL** gan fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor – hysbyseb wedi cael ei roi yn rhifyn mis Tachwedd a Rhagfyr 2022 o'r Ffynnon ac ar yr hysbysfyrddau a'n gwefan gyda dyddiad cau 15fed Ionawr 2023.

Derbyniwyd llythyr/ebost a mantolen ganddynt. Cytunwyd i dalu'r symiau isod ar y noson (drwy fod yn deg ac edrych ar anghenion pob cais).
Gwnaeth y Clerc anfon ffurflen o flaen y cyfarfod at y cynghorwyr yn nodi'r rhesymau a roddwyd gan y gwahanol fudiadau am ofyn am gymorth ariannol. Dangoswyd y ceisiadau papur i gyd i'r Cadeirydd ar 02.02.23, a'r Cynghorwyr oedd yn bresennol yn y cyfarfod.
Yn dilyn cyfarfod Pwyllgor Busnes a gafodd ei gynnal ar 06.10.2022, cytunwyd i wario swm tebyg i llynedd (sef £8,326.22 yn cynnwys cyfraniad Wifi), ond ei fod yn anodd gwybod faint o geisiadau a ddaw am gymorth ariannol eleni. *(Uchafswm gwariant posibl o £8.82 x 1521 o boblogaeth cymuned Llanystumdwy=£13,415.22*)

Mae **<u>£437.44</u>** eisioes wedi cael ei dalu am **<u>Wifi Neuadd Chwilog ar 30.01.2023</u>**, a bydd **<u>£311.32</u>** at Wifi Neuadd Llanystumdwy fis Chwefror 2032. Bydd angen talu am Wifi Pencaenewydd hefyd ar ol cael y manylion.
Derbyniwyd £1017.83 yn nol gan Tý Doctor, Nefyn ar 30.01.2023, a £4719.95 gan gwmni Lightsource ar 10.01.2023, (roedd hyn yn £529.57 yn fwy na llynedd).

| **<u>27.</u>** | **<u>2023 – Derbyniwyd cais 22 gan:-</u>** | **Taliad i'w wneud drwy BACS £** | **Cynghorwyr yn ymneilltuo** |
|---|---|---|---|
| (a). | Clwb Ffermwyr Ifanc Llangybi | 500.00 | Neb |
| (b). | Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Madog | 500.00 | Neb |
| (c ) | Mynwent Newydd Llanystumdwy | 500.00 | Anwen Jones, Tegid Jones, Gareth Davies a Darren Morley |
| (ch) | Mynwent Capel Helyg, Llangybi | 500.00 | Neb |
| (d) | Mynwent Rydd ac Anenwadol Chwilog | 500.00 | Aled Davies |
| (dd) | Cymdeithas Adloniant Capel Pencaenewydd | 500.00 | Angela Williams, Delyth Parry |
| (e) | Clwb Peldroed Llanystumdwy | 500.00 | Darren Morley |
| (f) | Neuadd Llanystumdwy | 500.00 | Darren Morley |
| (ff) | Neuadd Chwilog *(os byddwn wedi derbyn mantolen ganddynt o fewn 10 diwrnod-Clerc i ofyn amdano)* | *500.00* | Neb |
| (g). | Cylch Meithrin Llangybi | 1000.00 | Angela Williams |
| (ng) | Cylch Meithrin Chwilog | 1000.00 | Neb |
| (h) | Ysgol Llangybi | 500.00 | Angela Williams |
| (i). | Menter y Plu | 200.00 | Tegid Jones |
| (l) | Clwb Snwcer Chwilog | 200.00 | Darren Morley |
| (m) | Dawns i Bawb | 0.00 | Neb |
| (n) | Elusen Ambiwlans Awyr Cymru | 50.00 | Neb |
| (o) | Tý Gobaith | 50.00 | Neb |
| (p) | Eisteddfod Chwilog | 300.00 | Neb |
| (ph) | Mynwent Llangybi | 250.00 | Neb |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| (r ) | Urdd Gobaith Cymru Rhanbarth Eryri | 50.00 | Neb |
| (rh) | Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2023, Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin | 50.00 | Neb |
| (s) | Yes Cymru | Dim oherwydd ei bod yn gorff gwleidyddol. | Neb |
| | **Cyfanswm** | **£8,150.00** | |
| | Wifi Neuadd Chwilog (talwyd 30.01.23) | 437.44 | |
| | Wifi Neuadd Llanystumdwy (i'w dalu) | 311.32 | |
| | Wifi Pencaenewydd (heb dderbyn manylion eto) | - | |
| | **Cyfanswm** | **£8,898.76** | |

**Materion Hwyr**.
Cytunwyd i drafod y materion isod.

28. **Cais ariannol** wedi ei dderbyn gan Theatr Bara Caws ar 30.01.2023, sef yn rhy hwyr i'w gynnwys ar y rhaglen, ac ar ol y dyddiad cau – penderfynwyd gwrthod a'r Clerc i anfon ebost i egluro.

29. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod – 2 bil wedi cyrraedd rhy hwyr i'w ychwanegu ar y rhaglen felly cytunwyd i'w talu oherwydd fod 5 wythnos tan ein cyfarfod nesaf:

| **Enw/Rheswm** | Rheswm | Pris<br>£ | TAW | Cyfanswm Taliad<br>£ | Taliad BACS<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Criccieth Cleaning (3306) | Glanhau arosfan bws Llangybi (cais brys) | **50.00** | **10.00** | **60.00** | **60.00** |
| Criccieth Cleaning (3299) | Hydref 2022 a Ionawr 2023 | **365.00** | **73.00** | **438.00** | **438.00** |

30. **Cae Chwarae,** Chwilog – derbyniwyd gwybodaeth gan Cynghorydd Rhys Tudur ar 31.01.2023 yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa.
Yn dilyn cyfarfod a gafodd hefo Swyddog y Loteri:

"-Mae'r loteri yn rhoi grantiau bach (o dan 10,000) a rhai mwy.
-I gael at y rhai mwy, rhaid i'r ymgeisydd grant fel arfer ddangos bod ganddynt gytundeb o dros 10 blynedd ar gyfer defnyddio'r safle ac eu bod efo cyfrifoldebau drosto.
-Gofynwyd os oedd y model efo'r pwyllgor yn cael trwydded gan y Cyngor yn mynd i'n galluogi i gael at grantiau dros 10k. Cefais ar ddeall bod hyn yn annhebygol iawn.
-Amlinellwyd y modelau canlynol fel opsiynau i gael at botiau arian dros £10k:
a) y Pwyllgor yn cael les o dros 10 blynedd ac yn cymryd cyfrifoldebau sy'n eu galluogi i wneud cais am grantiau mwy.
b) Cyngor Cymuned yn cael les gan y Cyngor ac yn cymryd cyfrifoldeb ond bod y Pwyllgor yn ymgysylltu efo'r gymuned ac yn helpu'r Cyngor Cymuned.

c) Cyngor Gwynedd yn cadw cyfrifoldebau ac eu bod hefyd yn gwneud cais am grantiau ond ein bod ni yn ymgysylltu efo'r gymuned (gan gasglu holiaduron ac ati)

Mae'n debyg y byddai'n fuddiol i'r criw Cae Chwarae ofyn i'r Cyngor Sir wneud ceisiadau am grantiau yn gyntaf ac os nad oes parodrwydd i neud hynny, bydd angen iddynt holi'r Cyngor Cymuned". Derbyn y wybodaeth.

30. **Cof Eifionydd** – Cynghorydd Rhys Tudur wedi cynnig trefnu cyfarfod zoom hefo Robin Llwyd ab Owain i drafod y Cof a wicipedia, a penderfynwyd ar nos Lun 06.03.2023 am 7:00 yr hwyr.

31. **Holiadur Anghenion Tai Llanystumdwy** - fe gwblhawyd yr holiadur i ddangos barn y Cyngor Cymuned, a byddai'n ei gynnwys fel rhan o'r adroddiad.

Cytunwyd byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar nos Iau **09.03.2023** yng Nghapel Pencaenewydd a drwy zoom.

**It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.**